



# Ymdopi gyda Covid-19

Ein hymateb i'r pandemig Coronafeirws yng Nghymru



# Croeso / Welcome

Dyma'r stori o sut mae Sefydliad Cymunedol Cymru wedi ymateb i effeithiau pandemig Covid-19 ar gymunedau ledled Cymru.

Datblygodd yr hyn oedd, ar y dechrau, ond yn stori newyddion iechyd o'r ochr arall y byd, i effeithio ar bob rhan o'n bywydau, gan ddod â thrychineb i deuluoedd ym mhob rhan o Gymru a gadael llwybr o ddinistr cymdeithasol ac economaidd.

Yma, yn Sefydliad Cymunedol Cymru, rydym yn gweld mai ein cyfrifoldeb ni yw helpu cymunedau i ymateb i argyfwng. Er ein bod wedi hen arfer gwneud hynny o'r blaen mewn achosion lleol, dyma'r tro cyntaf i ni orfod gweithredu ar y fath raddfa er mwyn dod â chefnogaeth hanfodol i bobl o bob rhan o Gymru.



Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn rydym ni wedi'i weld a beth rydym ni wedi'i ddysgu. Mae'n stori o ysbryd dynol gwydn a chryf, cryfder gwirioneddol yma yng Nghymru.

Mae'r ymateb gan ein cefnogwyr wedi bod yn wych; yn symud yn gyflym er mwyn sicrhau bod arian ar gael. Mae'n tîm wedi gweithio'n galed i ddosbarthu grantiau'n gyflym i grwpiau sy'n gweithio gyda'r cymunedau mwyaf bregus. Un ffactor arbennig yw ein partneriaeth anhygoel gyda'r Ymddiriedolaeth Argyfyngau Genedlaethol.

Dim ond rhan o'r stori sydd yn yr adroddiad hwn, gan fod y pandemig, yn anffodus, yn dal gyda ni. Mae'n hadroddiad yn canolbwyntio ar y cyfnod o Fawrth 2020 hyd at Rhagfyr 2020.

Erbyn hyn, mae yna obaith fod y diwedd mewn golwg, ond rhaid i hynny beidio â thynnu sylw oddi ar yr angen difrifol am gefnogaeth sydd yn dal o'n cwmpas ni.

Byddwn yn dal i gefnogi pobl ledled Cymru trwy'r amser dychrynlyd hwn. Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i amlygu'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud ar draws y wlad ac y bydd yn eich ysgogi i ddal i'n helpu ni i wneud mwy.

Ar ran pawb yn Sefydliad Cymunedol Cymru, diolch i bob un ohonoch sydd wedi ein cefnogi trwy'r cyfnod dinistriol hwn.

Diolch o galon.

## Richard Williams

**Prif Weithredwr, Sefydliad Cymunedol Cymru**

# Adegau allweddol

**20 Maw**  
2020

Lansio Apêl  
Gwytnwch  
Coronafeirws  
Cymru gyda

**£200,000**

Mwy na

**£4 miliwn**

yn cael ei roi o apêl Cronfa  
Argyfwng Genedlaethol  
y DU i Gronfa Gwytnwch  
Coronafeirws Cymru i'w  
rannu yngh Nghymru

**27 Maw**  
2020

**Grantiau cyntaf**

yn cael eu rhoi o  
Gronfa Gwytnwch  
Coronafeirws  
Cymru

Hwb i Gronfa  
Gwytnwch  
Coronafeirws Cymru  
gan gyfraniadau hael o  
**Waterloo Foundation**  
**Admiral**  
**Track 2000**

Cafodd

**Dal dy Dir,**

grŵp yn cael ei ariannu  
drwy Gronfa Gwytnwch  
Coronafeirws Cymru eu  
cyfweld gan

**HRH Dug**  
**Caergrawnt**

**4 Ebrill**  
2020

Cyfraniadau  
Gronfa Gwytnwch  
Coronafeirws  
Cymru yn cyrraedd

**£1 miliwn**

**7 Gorff**  
2020

Rhannu mwy na  
**£2 miliwn**  
o grantiau

Rhyddhau record  
sengl elusennol

**Dwylo Dros y Môr**

gyda chyfran o'r  
arian yn mynd at  
Gronfa Gwytnwch  
Coronafeirws  
Cymru

**28 Ion**  
2021

Rhannu mwy na  
**£4.9 miliwn**  
o grantiau

# Sut allwn ni ymateb

Wythnosau'n unig ar ôl i gymunedau yng Nghymru gael eu dinistrio gan lifogydd, daeth y pandemig Coronafeirws i chwalu ein bywydau.

Roedd llawer o bobl yng Nghymru eisoes yn dioddef, nid yn unig yn gorfforol a/neu'n feddyliol oherwydd iechyd gwael, ond hefyd yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Daeth y pandemig â heriau mwy a newydd wrth i'r cyfnod clo gael ei gyhoeddi, busnesau'n gorfod cau eu drysau, gweithwyr yn brwydro i gael dau ben llinyn ynghyd ar ôl cael eu gosod ar ffyrlo neu'u diswyddo a daeth ynysu yn rhywbeth roedd yn rhaid i bawb ei wneud.



## Cyfarfod â'r her



Llwyddodd y trydydd sector yng Nghymru i gyfarfod â'r her yn gyflym ac yn ystwyth, daeth grwpiau cymunedol lleol at ei gilydd i greu tasgluoedd a thimoedd cymunedol i ymateb i Covid-19 ac i gefnogi'r aelodau mwyaf bregus yn eu cymunedau.

Er mwyn gwneud yn siŵr fod pobl Cymru'n cael y gefnogaeth orau bosibl, ffurfiodd Sefydliad Cymunedol Cymru bartneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol ar gyfer ei apêl ledled y DU, gan ddenu rhoddion oddi wrth unigolion a chwmnïau corfforaethol.

Cafodd ein 'Cronfa Gwytnwch Coronafeirws Cymru' ei lansio ar 23 Mawrth 2020 ar gyfer grwpiau ac elusennau cymunedol oedd yn gweithio'n galed i addasu eu gwasanaeth i gefnogi'r rhai mwyaf bregus oedd yn dioddef o effeithiau'r feirws.

Roedden ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cronfa Gymunedol y Loteri

Genedlaethol, Sefydliad Moondance ac arianwyr eraill i rannu ac i ddysgu. Roedden ni'n gweithio gyda'n gilydd i osgoi dyblygu ac i amlygu bylchau mewn gwybodaeth oedd yn cael ei rannu, gwybodaeth ynghylch ceisiadau twyllodrus. Roedd yn rhaid i drydydd sector Cymru allu nodi'n rhwydd yr arianwyr a oedd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion.


## Gwrando ar anghenion Cymru

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn deall yr heriau yr oedd grwpiau yn eu hwynebu, fe gynhalion ni arolwg yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig.

Yn ôl grwpiau a ymatebodd roedd cynnydd ar **62%** gyfartaledd yn y galw am gefnogaeth.

Bwyd a chyflenwadau hanfodol ar gyfer teuluoedd ar incwm isel oedd rhai o'r anghenion pennaf.


Aeth **29%** o'r holl grantiau a roddwyd at brosiectau yn taclo tlodi bwyd ac ar ddanfôn bwyd i bobl fregus.





Dangosodd yr arolwg hefyd mor anodd oedd hi i rai grwpiau a oedd, fel arfer, yn hunan gynhaliol gydag incwm da yn dod o ddigwyddiadau codi arian a siopau elusen. Disgynnodd incwm y sefydliadau hyn i ddim dros nos wrth i siopau elusen gau a phob digwyddiad yn cael ei ganslo.

Daeth yr hyn oedd i'w weld fel cryfder enfawr cyn y Coronafeirws i fod eu gwendid mwyaf. Roedden ni'n ariannu nifer o'r grwpiau hyn gyda grant i dalu eu costau craidd er mwyn iddyn nhw allu ddal ati gyda'u gwasanaethau i'r rhai a oedd angen gofal neu gefnogaeth ar adeg mor argyfyngus yn eu bywydau.



## Amlygu anghydraddoldeb



**8%**

i grwpiau yn cael eu harwain gan, neu'n canolbwyntio ar, gymunedau BAME yng Nghymru

Tynnodd yr ymgyrch 'Black Lives Matter' fis Mai 2020 sylw at y diwyllianau Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig (BAME) a dangos pa mor ddiinstriol oedd effeithiau'r Coronafeirws ar eu bywydau.

Roedden ni eisoes wedi ymestyn allan i'r sector hon a chynnig grantiau i helpu grwpiau gyfathrebu negeseuon y Llywodraeth i arbed bywydau trwy rannu taflenni, galwadau ffôn a help ar lein edrych i'r dyfodol.

Fe fyddwn ni'n adeiladu ar hyn ac yn dal i weithio gyda'r grwpiau hynny i wella ein dealltwriaeth a chynrychiolaeth o ddiwyllianau amrywiol.

## Edrych tuag at y dyfodol

Fis Medi, cafodd ein hariannu ei addasu er mwyn talu sylw i'r newid yn y pwyslais oedd i'w weld mewn ceisiadau.

Cafodd ein Cronfa Coronafeirws Cymru ei chau er mwy agor ein Cronfa Ymateb ac Adfer.

Roedd y gronfa newydd hon yn dal ar gael i sefydliadau oedd yn darparu ymateb brys mewn ardaloedd lle'r oedd cyfnod clo lleol, er enghraifft, ond roedd hefyd ar gael i sefydliadau'n canolbwyntio ar adfer o'r argyfwng ac i ddatblygu hunan gynhaliath a chadernid, ar atebion yn hytrach nag ar symptomau.



Wrth i ni symud i flwyddyn newydd, byddwn yn adeiladu ar yr hyn rydym ni wedi'i ddysgu yn ystod y blynyddoedd diweddar ac yn enwedig yn ystod y 12 mis diwethaf, er mwyn gallu dal ati i gefnogi'n ariannol ac i roi arian craidd am sawl blwyddyn ar y tro i sefydliadau lleol sydd wedi dangos yn ystod yr argyfwng hwn pa mor hanfodol ydyn nhw.

Byddai eleni wedi bod hyd yn oed yn fwy heriol heb y rhain.

Rydym yn diolch i bob un o'r sefydliadau hyn am yr hyn y maen nhw wedi'i wneud ac yn edrych ymlaen at weithio gyda nhw yn ystod yr wythnosau, y misoedd a'r blynyddoedd i ddod, wrth iddyn nhw ddal i ddarparu dyfodol gwell ar gyfer eu cymunedau ac i Gymru.

# Pwy rydyn ni wedi'u cefnogi



## Race Council Cymru

### Buddiolwr ifanc

"Mae yna feirws allan yna sy'n rhwystro pobl rhag mynd i'r gwaith a dilyn eu bywyd bob dydd.

Er enghraifft, i bobl fel fi a fyddai yn yr ysgol ar ddiwrnod fel heddiw, mae'r ysgol wedi gosod gwaith cartref i'r myfyrwyr ar liniaduron. Does gen i ddim gobaith o allu cael gliwiadur nac unrhyw ddyfais electronig arall fy hun.

Diolch yn fawr i'r arianwyr am roi gliwiadur i mi ei ddefnyddio yn ystod y pandemig, Diolch eto, a gobeithio y bydd pobl yn gweld eich gwaith da."

## Dal Dy Dir Powys

Cafodd Dal dy Dir grant i addasu eu gwasanaeth yn ystod y pandemig i ddal ati i gefnogi grwpiau wedi'u hymylu a grwpiau a theuluoedd gydag anableddau.



## Cymru Creations

### Tredegar

Defnyddiodd Cymru Creations eu grant i addasu o fod yn darparu prosiectau cymunedol yn y cyfryngau i ddanfôn bwyd a meddyginiaeth i'r rhai mwyaf bregus yn y gymuned.



## Summit Good

### Josh Pike, Cyfarwyddwr

"Mae'r grant gan Cronfa Gwytnwch Coronafeirws Sefydliad Cymunedol Cymru wedi'n galluogi ni i dalu ein staff a phrynu llysiau ar gyfer hanner cant yn fwy o gartrefi yn ystod y misoedd i ddod.

Mae'n help rhyfeddol, felly, diolch yn fawr iawn i chi."





## Welsh Womens Aid

### Sara Kirkpatrick, Prif Weithredwraig

"Mae Covid 19 wedi newid y byd yn radical ond nid yw wedi cael gwared ar yr heriau, y trais yn erbyn merched a genethod, niwed trais yn y cartref a thrais rhywiol Rydyn ni'n cefnogi ein haelodau i fod yn ymatebol, i gynnig eu gwasanaeth mewn ffyrdd newydd ac i gydnabod y rhwystrau ychwanegol sydd wedi'i codi yn y cyfnod ansicr hwn.

Drwy roi'r grant i ni, rydych chi wedi rhoi mwy nag arian. Rydych chi wedi sicrhau fod diogelwch a chefnogaeth yn dal ar gael ar adeg na welodd neb ei debyg."

## Help Harlech Harlech

Cafodd Help Harlech grant i ddiwallu'r gofyn dyddiol am ei wasanaeth ac i'w alluogi i brynu offer diogelwch personol i'w wirfoddolwyr i'w hamddiffyn wrth ddanfôn eu nwyddau.



## Bike to the Future Powys

Helpodd y grant Beicio i'r Dyfodol i ddefnyddio eu beic trydan cargo i rannu bwyd a bagiau o lysiau yn y gymuned leol.



## Oasis Cardiff

### Morrison, Gwirfoddolwr

"Fe adewais i Sudan pan oeddwn i'n 18 mlwydd oed am fod rhyfel wedi torri allan yno. Roedd y daith yn un hynod o anodd.

Roeddwn i gyda'm ffrind pan gafodd ei ladd ar y ffordd. Roedd colli fy ffrind mor anodd phrin y galla i ddechrau anghofio rhai o'r pethau a ddigwyddodd ar y daith.

Helpodd Oasis fi i ailadeiladu fy hunan, mae fel cartref i mi. Rwy mor falch o allu talu'n ôl i'r gymuned yr hyn y maen nhw wedi'i wneud i mi."





# Diolch

Fis Mawrth 2020, daeth y wlad i stop.

Symudodd y tîm yn Sefydliad Cymunedol Cymru'n gyflym i ddechrau gweithio o gartref er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gallu dal i wneud ein gwaith ar adeg pan oedd yr angen mwyaf am gefnogaeth ein harianwyr.

Sut fyddwn yn goroesi fel sefydliad heb allu mynd allan a thrafod gyda darpar roddwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol? Sut fyddwn ni'n cynnal digwyddiadau i ddangos ein gwaith i gefnogwyr ac i'w hannog i gysylltu â ni er mwyn adeiladu gwlad gryfach, gadarnach, ar adeg pan oedd cysylltiadau ar eu gwanaf?



Llwyddwyd i lansio'r Gronfa Gwytnwch Coronafeirws Cymru o fewn wythnos, drwy ail gyfeirio rhywfaint o'n cyllid ein hunain at yr achos newydd hwn. Yn fuan, rhoddodd Sefydliad Waterloo fwy o arian yn y gronfa, ac yna Admiral, Dŵr Cymru a rhoddwyr mawr unigol eraill.

Pan lansiwyd yr apêl, cyfrannodd y cyhoedd gannoedd o roddion llai wrth i bawb ddechrau sylweddoli cymaint o argyfwng oedd yn wynebu eu cymunedau.

Dyluniwyd y gronfa i ddarparu rhyddhad cyflym ac effeithiol i grwpiau lleol a oedd angen cefnogaeth yn ddi-oed, i'w helpu i barhau i ddarparu'r gwasanaethau mawr eu hangen i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Y mathau hyn o sefydliadau bach ar lawr gwlad sydd yn y sefyllfa orau i helpu eu cymuned leol oherwydd eu bod yn adnabod y bobl ac yn deall yr heriau sy'n eu hwynebu.

Wrth i'r cyfnod clo lacio, newidiodd ein Cronfa Gwytnwch Coronafeirws i fod yn Gronfa Ymateb ac Adfer i gydnabod bod gofynion ariannu llawer o sefydliadau wedi newid a bod yn rhaid symud ymlaen i ganfod y 'normal newydd'.

Mae'r gronfa hon yn anelu at gefnogi grwpiau wrth iddyn nhw geisio goresgyn yr heriau o adfer a cheisio sicrhau eu bod yn gallu helpu eu buddiolwyr yn y ffordd iawn yn ogystal â darparu cefnogaeth ar gyfer eu hymddiriedolwyr, timoedd eu staff a'u gwirfoddolwyr. Y wers rydym wedi'i ddysgu yn ystod y flwyddyn diwethaf yw, yng nghanol anrhefn ac ansicrwydd, fod cymuned sydd wedi'i chysylltu yn gymuned sy'n gallu goroesi. Roedd y cysylltiadau hyn, a ffurfiwyd gan ddyhead i weld rhywbeth da yn dod o'r argyfwng, yn amhrisiadwy wrth gefnogi'r mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Ni fydd y tîm yn Sefydliad Cymunedol Cymru byth yn gallu treulio digon o amser yn ei waith bob dydd i fynegi'n llawn ein diolchgarwch i'n rhoddwyr hael, a wnaeth waith y gronfa hon yn bosibl.

Mae eich hymrwymiad a'ch parodrwydd i ymuno â ni i wneud Cymru'n lle gwell, ar hyn o bryd ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn cael ei wirioneddol werthfawrogi.



Fel rhan o Gronfa Gwytnwch Coronafeirws Cymru, rydyn ni wedi gweithio'n agos â'r Ymddiriedolaeth Argyfyngau Genedlaethol i ddarparu mwy na £4 miliwn o arian ledled Cymru.



Hoffai Sefydliad Cymunedol Cymru ddiolch i bawb sydd wedi cyfannu at Gronfa Gwytnwch Coronafeirws Cymru, gyda diolch arbennig i:

- The Gareth Griffiths Fund
- Neumark Foundation



# Beth nesaf?

Yr hyn y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos yn wneud yn glir yw nad ydyn ni, fel sefydliad, wedi aros yn ein hunfan wrth ateb y cwestiynau anodd y mae'r pandemig wedi'u codi.

Pan oedden ni'n lansio'r gronfa fis Mawrth 2020, doedd gennym ni ddim syniad y byddai digon o arian yn dod i fewn gan unigolion, cwmnïau a chyllid statudol i roi mwy na £5 miliwn o grantiau i gymunedau a grwpiau oedd angen help fwyaf.

Mae haelioni'r rhoddwyr hyd yma wedi bod yn rhyfeddol, ond nid yw'r problemau y mae'r trydydd sector, a'r rhai y maen nhw'n eu cefnogi, yn mynd i ddiflannu – os rhywbeth, maen nhw'n gwaethygu.

Fe wyddom ni am brosiectau fel Brighter Futures yn y Rhyl oedd angen grant o £18,430 i gyflogi staff i ailgychwyn eu gwaith ieuenctid, darparu gwahanol ffyrdd o gynnal, o ganllawiau bwyta'n iach i gyfleodd i wirfoddoli yn y gymuned.

Roedd Cymdeithas Arddio Gymunedol Star Hub yng Nghaerdydd yn chwilio am arian i'w helpu i ddatblygu gardd gymunedol bresennol yng Nghaerdydd a'u galluogi i dyfu mwy o gynnyrch a meithrin sgiliau gwirfoddolwyr a gwella eu hiechyd meddwl.

Mae angen cyllid brys ar gyfer y prosiectau hyn, a mwy o grwpiau fel y rhain, er mwyn sicrhau y gallant barhau i gefnogi eu cymunedau trwy'r pandemig a thu hwnt.

Ein gobaith diffuant yw y bydd yr adroddiad hwn yn annog cefnogwyr eraill i ystyried sut y gallen nhw chwarae rhan i sicrhau bod cymunedau mwyaf bregus Cymru'n cael yr help y maen nhw ddirfawr ei angen i adfer o effeithiau arswydus y pandemig hwn.

## Mae angen eich cefnogaeth nawr, fwy nag erioed.

**Community Foundation Wales  
St Andrews House  
24 St Andrews Crescent  
Cardiff  
CF10 3DD**

**02920 379580**

**[www.communityfoundationwales.org.uk](http://www.communityfoundationwales.org.uk)**

**Os hoffech chi ein cefnogi, cofiwch gysylltu**



**[info@communityfoundationwales.org.uk](mailto:info@communityfoundationwales.org.uk)**



**[@foundationwales](https://twitter.com/foundationwales)**



**[@walescf](https://www.facebook.com/walescf)**



**Cyfeilliion Sefydliad Cymunedol Cymru**

**Charity Number 1074655**

**Company Number 03670680**

**Community Foundation Wales is the trading name of The Community Foundation in Wales**